**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 8 Hydref 2015 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2014-15 |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r adroddiad yn ddarlun cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2014-15, a'i fabwysiadu. |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,<br>Dirprwy Arweinydd y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r adroddiad |

## 1.0 CEFNDIR

1.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym wedi cyfarch hyn drwy gyhoeddi Cynllun Strategol y Cyngor 2013-17.

1.2 Mae'r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:

Cam 1 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).

Cam 2 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi asesiad o berfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a'u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2014-15).

1.3 Cyflwynir yma Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2014-15, sydd yn adrodd ar berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

1.4 Gofynnir i awdurdodau gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ariannol ganlynol.

1.5 Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor.

## 2.0 Y CYNNWYS

2.1 Mae'r adroddiad yn seiliedig ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor ac adroddiadau ar berfformiad a gyflwynwyd gan Arweinyddion Prosiect, sy'n rhoi sylw i gyrhaeddiad yn erbyn Cynllun Strategol y Cyngor 2013-17 (ein hamcanion gwella).

2.2 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad data sy'n mesur ein cynnydd yn erbyn mesurau perfformiad allweddol y Cyngor a'r Mesuryddion Strategol Cenedlaethol (NSIs).

2.3 Cyflwynir fersiwn 'gryno' sydd yn rhoi sylw i'r prif faterion yn weledol. Mae wedi ei lunio er mwyn cael ei darllen yn rhwydd gan drigolion Gwynedd. Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfryngau arferol y Cyngor, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol.

2.4 Ystyriwyd yr adroddiad gan y Fforwm Craffu yn ei gyfarfod ar 28 Gorffennaf 2015, a gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2015. Mae'r adroddiad a gyflwynir yn ymgorffori addasiadau y cytunwyd yn y cyfarfodydd hynny.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2014-15, a'i fabwysiadu.